OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 1642 (Cy. 211)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

*Gwnaed* *25 Mehefin 2012*

*Yn dod i rym* *5 Gorffennaf 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494/A550) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel y "gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith ffyrdd y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Gorffennaf 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 22:00 o'r gloch ar 5 Gorffennaf 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o gefnffordd yr A494/A550

wrth Gyfnewidfa Glannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 25 Mehefin 2012

***R Morgan***
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11, i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

i) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gogledd cefnffordd yr A494 sy'n cysylltu â phrif gerbytffordd cefnffordd yr A550 tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glannau Dyfrdwy.

ii) Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r gogledd cefnffordd yr A550 sy'n ymestyn tua'r gogledd o bwynt wrth ei chyffordd â'r gylchfan wrth Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy (yr A548) am bellter o 341 o fetrau.